# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Gwella: materion atodol*

### 7 Agweddau ar wella: diwygio

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—

(a) diwygio neu hepgor unrhyw baragraff yn is-adran (2) o adran 4;

(b) ychwanegu paragraffau ychwanegol at yr is-adran honno;

(c) diwygio neu hepgor paragraffau ychwanegol o'r fath.

(2) Caiff gorchymyn o'r fath wneud unrhyw ddiwygiadau i'r Mesur hwn sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth a wnaed o dan is-adran (1).

(3) Cyn gwneud gorchymyn o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) personau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli awdurdodau gwella Cymreig, a

(b) unrhyw bersonau eraill (os oes rhai) y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda i ymgynghori â hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 17.7.2009 gan O.S. 2009/1796, **ergl. 2(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 7 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16